CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 5ed o Ebrill 2016 yn Yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol
Cadeirydd: Lon Davies
Cynghorwyr: Ieuan Davies, Julie Charlton, Ceirwyn John, , Enid Cole, Robin Phillips
Cynghorydd Sir: Cyng Keith Lewis
Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Ymddiheiriadau:- Llinos Davies

Cofnodion 01.03.2016
Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Ceirwyn John fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion
134. Nid oedd ynrhyw fater yn codi.

Gohebiaeth
135. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mrs. P. Fox, Treallt, Eglwyswrw – Tir cyfagos I Hafodwen, Eglwyswrw. Mae'r cais yma wedi cael ei gymeradwyo'n amodol.
136. Cyfanswm yn y banc 25.3.16 £2,331.76
137. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Gweithdy ar gyfer adolygu Cynllun datblygu lleol – dosbarthwyd y wybodaeth I bawb.
138. Cyngor Sir Benfro Cais Cynllunio Mr. a Mrs. D. Edwards, Pentir, Eglwyswrw. Mae'r cais yma wedi cael ei gymeradwyo'n amodol.
139. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. L. Morris, Pentre, Ffynnongroes – Mae'r cais yma wedi ei dderbyn. Ond fe fydd y Cyng. Keith Lewis yn edrych I mewn I'r cais yma unwaith eto can fod amodau ar sut mae'r cais wedi ei dderbyn.
140. Cinio Blynyddol Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Ceirwyn John I Helen gysylltu a Salutation Inn Felindre er mwyn cael bwydlen. Dyddiad 20fed o Fai.

Unrhyw Fater arall
141. Eisteddfod Genedlaethol Sir Y Fflint – Llythyr am gymorth ariannol – Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Ieuan Davies I beidio cyfrannu eleni.
142. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Adolygiad draft Cynllun Datblygu Lleol – Cynigodd y Cyng. Keith Lewis ein bod yn ail edrych ar y wybodaeth yma yn y cyfarfod nesaf ac hefyd cwbwlhau yr holiadur dyddiad cau 23ain o Fai.
143. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Michael Lindsey a Jane Rutherford, Glanyrafon Isaf, Brynberian cais ar gyfer adnewyddu a gwneud newidiadau I cefn estyniad 2 llawr I annedd hefyd adfer sied tractorau ae ei lleoliad gwreiddiol. Adeilad ffrâm bren ar gyfer swyddfa/stiwdio. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.
144. Ar rhan y Cyngor Cymuned fe estynnwyd cydymdeimlad dwysaf gyda teulu y diweddar Cyn. Lyn Davies.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 3ydd o Fai am 8.00y.h.
Terfynwyd y cyfarfod am 8.30 y.h.